Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Uwchradd Caereinion**
**Llanfair Caereinion**
**Y Trallwng**
**Powys**
**SY21 0HW**

**Dyddiad yr ymweliad: Mai 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Uwchradd Caereinion wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn sgil yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol o'r rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 a lleihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn

Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth mewn llawer o feysydd y cwricwlwm. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn ei gymhwyso'n llwyddiannus i gyd-destunau newydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathro a'u cymheiriaid, gyda pharch tuag atynt. Maent yn cyfrannu'n glir ac yn hyderus at drafodaethau'r dosbarth, gan wneud defnydd effeithiol o eirfa sy'n benodol i bwnc. Mae ychydig ddisgyblion yn gwneud hyn yn dda iawn. Er enghraifft, wrth astudio 'Romeo and Juliet' mewn Saesneg, maent yn cymharu'r perthnasoedd rhwng Juliet, Lady Capulet a'r nyrs yn aeddfed ac yn eglur. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion yn rhoi ymatebion llafar byr, annatblygedig, i gwestiynau athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda ac yn brasddarllen a sganio amrywiaeth o destunau yn hyderus i ddethol gwybodaeth ddefnyddiol. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn llwyddo i ddod o hyd i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a'i harfarnu wrth ymchwilio i farwolaeth dyn Tollund.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb technegol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig, wedi'i strwythuro'n dda, at amrywiaeth eang o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, mewn Cymraeg, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau ysgrifennu yn llwyddiannus wrth fynegi eu barn am foddi cwm Tryweryn. Fodd bynnag, nid yw ychydig ddisgyblion yn strwythuro'u hysgrifennu estynedig yn ddigon effeithiol. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud camgymeriadau mynych yn eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhifedd addas. Cyflwynant ddata yn gywir mewn graffiau. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, mae disgyblion yn tynnu llun graff i ddangos y cynnydd mewn carbon deuocsid yn yr atmosffer dros gyfnod ac yn dehongli eu canfyddiadau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw eu medrau rhifedd wedi'u datblygu cystal â'u medrau llythrennedd. Mae llawer o ddisgyblion yn

defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gyflwyno'u gwaith yn briodol.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi gwella yn gyffredinol ac mae bellach uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Mae perfformiad ar drothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, wedi codi am y ddwy flynedd ddiwethaf ac, yn 2017, roeddent yn cyd-fynd â rhai ysgolion tebyg.

Fe wnaeth perfformiad disgyblion yn y dangosydd sy'n cynnwys 5 TGAU graddau A* i A neu gyfwerth ddirywio yn 2015 ac eto yn 2016. Yn 2017, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd hwn gynyddu'n sylweddol ac mae bellach uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg.

Mae perfformiad merched ar drothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi cyd-fynd yn gyffredinol â pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad bechgyn wedi gwella ac mae bellach yn cymharu'n dda â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Ar y cyfan, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyd-fynd â pherfformiad eu cymheiriaid mewn ysgolion tebyg.

**A2. Gwella presenoldeb**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno amrywiaeth o strategaethau buddiol i wella presenoldeb disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys systemau gwobrau addas i annog presenoldeb da a chynnwys rhieni pan fydd presenoldeb disgyblion yn disgyn islaw lefelau targed.

Ar y cyfan, mae'r strategaethau hyn wedi arwain at welliannau mewn presenoldeb ers adeg yr arolygiad craidd. Yn 2015 a 2016, roedd presenoldeb yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Fe wnaeth presenoldeb ostwng yn 2017 ond mae'n cyd-fynd o hyd â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg.

Ers yr arolygiad craidd, bu gwelliant cyson ym mhresenoldeb merched ac, erbyn hyn, mae'n cyd-fynd â phresenoldeb merched mewn ysgolion tebyg. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb bechgyn a disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol â hynny mewn ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi gostwng ers yr arolygiad craidd er, yn 2017, roedd ychydig yn uwch o hyd na'r lefelau mewn ysgolion tebyg.

Mae data heb ei ddilysu ar bresenoldeb ac absenoldeb cyson ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol yn dangos gwelliannau ers lefelau 2017, o ran cyfraddau presenoldeb ac absenoldeb cyson.

**A3. Gwella ansawdd yr addysgu, yr asesu ac olrhain perfformiad disgyblion**

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae uwch arweinwyr wedi rhoi amrywiaeth addas o fesurau ar waith i arfarnu a gwella ansawdd addysgu ac asesu ar draws yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau defnyddiol i rannu arfer dda mewn addysgu rhwng athrawon a chefnogi gwaith datblygu addysgu ac asesu gwerthfawr. O ganlyniad i'r mentrau hyn, mae ansawdd addysgu ac asesu wedi gwella ers adeg yr arolygiad craidd.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthnasoedd gweithio cynhyrchiol â disgyblion. Mae llawer ohonynt yn frwdfrydig am eu pwnc ac yn cyflwyno gwersi sy'n hoelio sylw. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel priodol o'r hyn y dylai disgyblion ei gyflawni.

Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfres o weithgareddau buddiol i ddisgyblion sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol, gan gynnwys cyfleoedd buddiol i ysgrifennu'n estynedig. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o enghreifftiau, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i gynnal diddordeb pob disgybl a herio disgyblion o bob gallu.

Mewn gwersi, mae llawer o athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. Rhoddant adborth llafar a chwestiynau defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig gwerthfawr i ddisgyblion, gan eu helpu i ddeall sut i wella'u gwaith. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu'n dda â thasgau dilynol i ddatblygu agweddau penodol ar eu gwaith. Mae llawer o athrawon yn amlygu a mynd i'r afael â chamgymeriadau sillafu a gramadeg yng ngwaith disgyblion yn briodol.

Mae arweinwyr wedi rhoi systemau trylwyr ar waith i olrhain cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Defnyddiant wybodaeth asesu yn dda i fesur cynnydd yn erbyn targedu a nodi grwpiau o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i roi mesurau cymorth addas ar waith i fynd i'r afael â thanberfformio posibl yn amserol.

**A4. Gwella cysondeb hunanarfarnu ar draws yr ysgol a sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella yn cynnwys deilliannau clir a mesuradwy**

Ers yr arolygiad craidd yn 2013, mae'r ysgol wedi datblygu ei threfniadau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn briodol i sicrhau dull cyson ac ansawdd gwell. Bellach, mae gan arweinwyr well dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau mewn safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth, ac maent wedi gallu mynd i'r afael â

diffygion yn briodol. Yn benodol, mae hyn wedi arwain at welliannau mewn ansawdd addysgu a deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae'r calendr ar gyfer gweithgareddau hunanarfarnu yn gosod dyddiadau sy'n galluogi'r ysgol i arfarnu agweddau ar ei gwaith ar adegau priodol trwy gydol y flwyddyn. Mae uwch arweinwyr wedi datblygu'n dda eu defnydd ar dystiolaeth uniongyrchol, fel arsylwadau gwersi a monitro gwaith disgyblion, i ategu hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r ysgol yn ystyried ac yn gweithredu ar farn disgyblion a rhieni pan fo'n briodol, ond megis dechrau sefydlu trefniadau ffurfiol i gael eu barn y mae'r ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ddealltwriaeth sicr o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae bron pob un o'r arweinwyr canol yn defnyddio data yn dda i gymharu perfformiad eu hadran â pherfformiad ysgolion tebyg. Nid yw ychydig arweinwyr canol yn nodi a defnyddio tystiolaeth o graffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi yn ddigon da i nodi meysydd y mae angen eu gwella mewn agweddau pwysig fel cynnydd a safonau disgyblion.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn amlinellu camau gweithredu cyffredinol addas i fynd i'r afael â'r holl argymhellion o'r arolygiad craidd. Mae'n cynnwys manylion perthnasol fel cyfrifoldebau ac adnoddau, dyddiadau cwblhau a threfniadau monitro. Mae targedau yn addas o uchelgeisiol ac yn briodol o heriol.

Mae fformat cynlluniau datblygu adrannol yn gyson ac mae'r rhan fwyaf o gynlluniau yn cynnwys targedau mesuradwy a phriodol. Maent yn cynnwys blaenoriaethau addas, fel gwella ansawdd addysgu. Fodd bynnag, yn aml, nid yw'r camau gweithredu ar gyfer eu cyflawni yn ddigon manwl ac mae'r meini prawf llwyddiant yn y rhan fwyaf o gynlluniau yn rhy amwys.

### A5. Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn darparu mwy o drylwyrdeb a sicrhau gwelliannau mewn safonau

Ers yr arolygiad craidd, bu newidiadau arwyddocaol ymhlith yr uwch arweinwyr. Mae'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n effeithlon i sicrhau gwelliannau mewn agweddau allweddol ar waith yr ysgol.

Diwygiwyd cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain i gyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol wedi cryfhau llinellau atebolrwydd trwy drefniadau rheoli llinell effeithiol. Mewn cyfarfodydd cyswllt, mae arweinwyr yn canolbwyntio'n addas ar gynnydd disgyblion ac yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu priodol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn dilyn y pwyntiau gweithredu hyn i fyny'n addas. Mae uwch arweinwyr yn nodi ac yn herio tanberfformiad mewn modd cymwys. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at welliannau mewn meysydd pwysig fel presenoldeb a llawer o'r dangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol wedi rhoi arweiniad a hyfforddiant priodol i arweinwyr canol ar sut i gyflawni'u rolau.  Mae hyn wedi arwain at fwy o drylwyredd yng ngwaith arweinwyr canol a mwy o gysondeb yn eu heffeithiolrwydd.  Defnyddiant gyfarfodydd adrannol rheolaidd i ganolbwyntio'n addas ar gynnydd disgyblion unigol, ac mae llawer ohonynt yn nodi camau gwella priodol i athrawon eu gweithredu a'u monitro.

Mae llywodraethwyr yn gwbl ymroddedig i gefnogi'r ysgol ac maent yn deall eu rolau'n dda.  Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac ymwybyddiaeth briodol o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**